Polisi Diogelwch Gwybodaeth

Rhagymadrodd

Mae gwybodaeth a systemau gwybodaeth yn hanfodol bwysig i Dŷ'r Cwmnïau. Heb wybodaeth a systemau gwybodaeth dibynadwy, allai Tŷ'r Cwmnïau ddim cyflwyno'i wasanaethau na chyrraedd ei dargedau.

Rhaid i wybodaeth gael ei diogelu mewn modd sy'n briodol ar gyfer pa mor sensitif, gwerthfawr a hanfodol yw hi. Rhaid i fesurau diogelwch gael eu defnyddio ni waeth beth fo'r cyfrwng y mae'r wybodaeth wedi'i storio arno, y systemau sy'n ei phrosesu, neu'r dulliau i'w phrosesu.

Hyd a Lled y Polisi

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r cyfrifoldeb sydd ar yr holl reolwyr, staff a chontractwyr er mwyn sicrhau bod gwybodaeth Tŷ'r Cwmnïau yn ddiogel. Mae'n cynnig fframwaith o weithdrefnau, safonau a rheolaeth i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel.

Diben y Polisi

Mae'r polisi'n nodi'r ymagwedd sy'n cael ei defnyddio i reoli cyfrinachedd, cyflawnder ac argaeledd gwybodaeth. Diben hynny yw sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei diogelu mewn modd priodol rhag amrywiaeth o fygythiadau megis gwallau, twyll, difrod, brawychiaeth, cribddeiliaeth, ysbio diwydiannol, torri preifatrwydd, torri ar draws gwasanaethau, lladrata a thrychinebau naturiol, mewnol neu allanol, bwriadol neu ddamweiniol.

Eich Cyfrifoldeb Chi

Cyfrifoldeb holl weithwyr cyflogedig a chontractwyr Tŷ'r Cwmnïau yw rhoi gwybod am unrhyw wall meddalwedd, digwyddiad diogelwch, amheuaeth o feirws, nam, gwendid neu fygythiad a welir neu a amheuir i'r Ddesg Gymorth berthnasol cyn gynted ag y gellir. Bydd hynny'n sicrhau bod gwrth-fesurau perthnasol yn cael eu cymryd i leihau effaith y digwyddiad a sicrhau na fydd yn digwydd eto. Os oes amheuaeth, siaradwch â'ch rheolwr llinell neu â'r Rheolwr Diogelwch Gwybodaeth.

Er mwyn diogelu gwybodaeth, mae gofyn bod yr holl staff yn cymryd rhan ac yn rhoi eu cefnogaeth. Caiff yr holl staff ddigon o hyfforddiant a chanllawiau i ganiatáu iddyn nhw ddiogelu a rheoli materion gwybodaeth Tŷ'r Cwmnïau.

Rhagor o Wybodaeth

Dylai'r staff ymgyfarwyddo â holl ofynion yr amrywiol bolisïau a gweithdrefnau gwybodaeth i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â nhw. Mae'r holl bolisïau hyn ar gael yn yr adran Diogelwch Gwybodaeth ar y Fewnrwyd neu gellir eu cael ar ffurf copi caled oddi wrth yr adran Diogelwch TG. Gallai torri'r polisïau hyn arwain at achos disgyblu.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r adran Diogelwch TG.